OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 824

# Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010

## RHAN 2 —

## Cyllideb AALl, Cyllideb Ysgolion a Chyllideb Ysgolion Unigol

### Cyllideb AALl

**4.**—(1) Rhagnodir y dosbarthiadau neu'r disgrifiadau o wariant awdurdod lleol a bennir yn Atodlen 1 at ddibenion adran 45A(1) o Ddeddf 1998 a phenderfynu ar gyllideb AALl awdurdod lleol, ac eithrio i'r graddau y mae gwariant o'r fath yn wariant a eithrir neu'n dod o fewn paragraff (2).

(2) Daw gwariant o fewn y paragraff hwn os yw'n wariant—

(a) sydd, yn rhinwedd cynllun yr awdurdod (o fewn ystyr adran 48(5) o Ddeddf 1998) neu unrhyw ddeddfiad, i'w dynnu o gyfran ysgol o'r gyllideb; neu

(b) sy'n dod o fewn is-baragraff (1) o baragraff 1 o Atodlen 2.

### Penderfyniad cychwynnol cyllideb ysgolion

**5.**—(1) Cyn 14 Chwefror yn union cyn dechrau cyfnod cyllido rhaid i awdurdod lleol—

(a) gwneud penderfyniad cychwynnol ar ei gyllideb ysgolion ar gyfer y cyfnod cyllido hwnnw; a

(b) hysbysu ei benderfyniad i Weinidogion Cymru, i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir ganddo.

(2) Os bydd awdurdod lleol yn ailbenderfynu ei gyllideb ysgolion, rhaid iddo hysbysu'r ailbenderfyniad hwnnw i Weinidogion Cymru ac i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir ganddo o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl ailbenderfynu.

### Cyllideb ysgolion

**6.**—(1) Rhagnodir y dosbarthiadau neu'r disgrifiadau o wariant awdurdod lleol a bennir ym mharagraff (2) at ddibenion adran 45A(2) o Ddeddf 1998 a phenderfynu ar gyllideb ysgolion awdurdod lleol.

(2) Dyma'r dosbarthiadau neu'r disgrifiadau o wariant awdurdod lleol—

(a) gwariant ar ddarparu a chynnal a chadw ysgolion a gynhelir ac ar addysg y disgyblion a gofrestrwyd yn yr ysgolion hynny;

(b) gwariant ar addysg disgyblion mewn ysgolion annibynnol, ysgolion arbennig nas cynhelir, unedau cyfeirio disgyblion, yn y cartref ac yn yr ysbyty, ac ar unrhyw drefniadau eraill ar gyfer darparu addysg gynradd ac uwchradd i ddisgyblion heblaw mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol; ac

(c) pob gwariant arall a dynnir mewn cysylltiad â swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â darparu addysg gynradd ac uwchradd, i'r graddau nad yw gwariant o'r fath yn dod o fewn paragraff (a) neu (b),

ond dim ond i'r graddau nad yw gwariant o'r fath—

(a) yn dod o fewn dosbarth neu ddisgrifiad o wariant a ragnodir gan reoliad 4 at ddibenion adran 45A(1) o Ddeddf 1998 a phenderfynu ar gyllideb AALl awdurdod lleol, a

(b) yn wariant a eithrir.

**Cyllideb ysgolion unigol**

**7.** Cyn 14 Chwefror yn union cyn dechrau cyfnod cyllido, rhaid i awdurdod lleol ddidynnu o'i gyllideb ysgolion unrhyw un neu'r cyfan o'r dosbarthiadau neu'r disgrifiadau o wariant cynlluniedig a nodir yn Atodlen 2, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, er mwyn cyrraedd ei gyllideb ysgolion unigol ar gyfer y cyfnod cyllido hwnnw.